YMATEB LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU I ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO AR:

GYFRIFON ADNODDAU CYFUNOL 2006-07 CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU (3) 03-08

Croesawn ganfyddiadau'r adroddiad a chynigiwn yr ymatebion canlynol i'r chwe argymhelliad a wnaed.

ARGYMHELLION:

1. Argymhellwn fod Llywodraeth y Cynulliad yn cryfhau effeithiolrwydd ei Phwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol drwy gynyddu cyfran yr aelodau penodedig allanol a drwy sicrhau bod yr holl gyfryw Bwyllgorau yn cael eu cadeirio gan aelodau penodedig allanol.

Derbyniwyd

Yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n gyfrifol am sefydlu'r trefniadau llywodraethu corfforaethol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o'i chyfrifoldebau personol fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae hi wedi ymrwymo i sicrhau bod y cyfryw drefniadau'n gweithredu'n effeithiol er mwyn rhoi sicrwydd o ran rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Mae'r cam cymharol ddiweddar i gyflwyno Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol i bob Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol wedi rhoi sicrwydd cynyddol gyda ffocws mwy pendant ar y prosesau rheoli a thrin a weithreda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'u cyfansoddiad yn dal i gael eu datblygu.

Yn unol â chanllawiau'r Trysorlys, mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi ymrwymo i gryfhau'r sialens allanol ar bwyllgorau a phenodi aelodau allanol sydd wedi cymhwyso'n briodol yn gadeiryddion ar y pwyllgorau hyn, a chaiff hyn ei weithredu yn y tri mis nesaf.

2. Argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad yn ddieithriad ac yn ddi-oed gyflawni cysoniadau banc misol. Ni ddylid gwyro oddi ar bolisi o'r fath ac eithrio am resymau cwbl eithriadol ac wedyn dim ond gydag awdurdodiad personol yr Ysgrifennydd Parhaol.

Derbyniwyd

Mae cysoniadau banc yn archwiliadau pwysig i ategu'r arferion monitro a rheoli dyddiol dros reolaeth ariannol a'r banc. Fel rhan o'r Rhaglen Newid Cyllid Corfforaethol cyflwynwyd prosesau newydd a fydd i'r dyfodol yn awtomeiddio llawer o'r gwaith sy'n rhan o'r cysoniadau. O'r herwydd, mae'r holl gysoniadau'n gwbl ddiweddar. Ni ragwelwn ddim amgylchiadau eithriadol a fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi ar y polisi hwn.

3. Argymhellwn fod Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys y cyfryw arfer da - yn peidio ag ymgymryd â phrosiect sylweddol heb amcangyfrif ei gostau llawn na heb sefydlu peirianwaith i fonitro'r alldro - yn ei phrosesau rheoli prosiectau ac yn sicrhau y glynir wrth arfer o'r fath yn ddieithriad.

Derbyniwyd

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad hanes da mewn rheoli rhaglenni a phrosiectau drwy ddefnyddio disgyblaethau rheoli prosiectau a rhaglenni ffurfiol. Pan fabwysiadir y rhain, gwneir hyn yn gyffredinol yn unol â'r canllawiau a'r gweithdrefnau a osodir allan yn Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus, ac mae'r rhain yn cynnwys yr arfer gorau. Dro hwn mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cydnabod y bu Llywodraeth y Cynulliad yn llwyddiannus i raddau helaeth wrth reoli Rhaglen Uno CCNCau.

Ni fu costio'r amser a rydd staff i gyflawni prosiectau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhan o'r drefn arferol oni ddefnyddiwyd adnoddau ychwanegol yn benodol ar gyfer y darn gwaith.

4. Argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad gryfhau'i threfniadau rheoli prosiectau er mwyn sefydlu cynllun clir i wireddu'r manteision a monitro a sicrhawyd y manteision disgwyliedig mewn gwirionedd.

Derbyniwyd

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio disgyblaethau rheoli rhaglenni a phrosiectau ffurfiol fwyfwy. Mae'r rhain yn gyffredinol yn unol â'r canllawiau a'r gweithdrefnau a osodir allan yn Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus, ac mae'r rhain yn cynnwys yr arfer gorau o safbwynt rheoli manteision. Mae rhaglenni'n awr yn cynnwys cynllun gwireddu manteision sy'n nodi lle gwneir arbedion a phwy fydd yn gyfrifol am eu cyflawni.

Sefydlwyd targedau i sicrhau effeithlonrwydd yn unol ag arbedion uno CCNCau ar gyfer pob un o'r Adrannau yr effeithiwyd arnynt ac mae cyflawni hyn yn cael ei fonitro a'i gofnodi.

5. Rydym yn awr yn dibynnu ar Lywodraeth y Cynulliad i weithredu ar ddadansoddiad yr Archwilydd Cyffredinol a dysgu oddi wrth ei phrofiadau diweddar yn cyflawni'r Rhaglen Newid Cyllid Corfforaethol yn llwyddiannus.

Derbyniwyd

Fel yr adroddwyd wrth y Pwyllgor Archwilio, ceir cefnogaeth ac arweiniad cryf gan Uwch Dîm Rheoli Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y Rhaglen Newid Cyllid Corfforaethol (RhNCC). Caiff y datblygiadau allweddol a'r materion rheoli eu hadolygu bob mis gan Fwrdd y Rhaglen, y Bwrdd Rheoli a'r Uwch Dîm Busnes a bydd hyn yn parhau gydol y rhaglen.

Bu'r Rhaglen yn ddarostyngedig i adolygiadau prosiect Gateway Gwerth Cymru ar adegau allweddol. Mae'r adolygiadau hyn wedi cydnabod y gefnogaeth sylweddol a rodda uwch randdeiliaid a sefydliadau i'r rhaglen ac wedi cymeradwyo'r trefniadau a'r disgyblaethau rheoli rhaglenni cadarn a sefydlwyd i gyflawni'r rhaglen, gan gynnwys y trefniadau rheoli risg.

Gweithredwyd Cam 1 y Rhaglen yn llwyddiannus ar 1 Ebrill 2008 ac roedd hyn yn cynnwys adnewyddu'r prosesau ariannol craidd a gynhaliwyd o fewn yr Adran Gyllid ganolog. Cwblhawyd y cam hwn o fewn cyfnodau eithriadol o fyr ac ni ellid bod wedi cyflawni hyn heb gefnogaeth ac ymrwymiad sylweddol y rheolwyr a'r staff ar draws y sefydliad.

Rhaglen newid sylweddol yw'r RhNCC ac fe'i bwriedir i drawsnewid y trefniadau Rheolaeth Ariannol ledled Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y rhaglen yn cymryd amser i gael ei gweithredu'n llwyr ond bydd ei llwyddiant yn parhau, drwy broses o wella parhaus, drwy gynnal yr un lefel o ffocws ac ymrwymiad fel y dangoswyd eisoes yng ngham 1. Mae'r newidiadau hyn yn ehangach na chyllid a byddant yn sylfeini i ffordd newydd o weithio ar draws y busnes cyfan.

6. Argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i ledaenu'r gwersi a ddysgodd pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol bosib er mwyn cynorthwyo prosesau newid sefydliadol ehangach ar draws sector cyhoeddus Cymru.

Derbyniwyd

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cytuno bod ganddi rôl bwysig i'w chwarae i ledaenu arferion da ar draws y gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru, ac mae'n falch bod y Pwyllgor archwilio'n ystyried ei bod yn bwysig i'r arferion da a ddangoswyd wrth reoli uno'r CCNCau gael eu lledaenu fel hyn.